

## PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MAWRTH, 8 MAWRTH 2022

Yn Cynghorydd Walker(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Ahmed, Berman, Bowen-Thomson, Cowan,  
Henshaw, Mackie a/ac Williams

70 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Lister.

71 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd diddordeb personol gan y Cynghorydd Bowen-Thomson Eitem 4 gan ei bod yn aelod o'r Is-grŵp Cyfiawnder Cydraddoldeb Hiliol yn ei rôl gyda Cymru Ddiogelach.

72 : COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2022 a 23 Chwefror 2022 fel cofnodion cywir.

73 : TASGLU CYDRADDOLDEB HILIOI

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Arweinydd wedi sefydlu Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i Gaerdydd yn 2020. Cafodd y Pwyllgor hwn ddiweddiad defnyddiol ar gynlluniau'r tasglu ym mis Ionawr 2021, gan nodi ei gyfeiriad. Mae'r adroddiad gerbron y Pwyllgor yn benllanw tua 18 mis o waith, gan gasglu gwaith ei 5 is-grŵp a nodi cyfleoedd ymarferol ar gyfer newid i wella cydraddoldeb hiliol yn y ddinas.

Croesawodd y Cadeirydd Y Cynghorydd Saeed Ebrahim, Cadeirydd y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol; Y Cynghorydd Lynda Thorne, Aelod Cabinet; Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau; Sian Sanders, RhG Cydlyniant Cymunedol a Chydraddoldeb a Charlotte Amoss, Uwch Swyddog Polisi ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Ramesh Patel hefyd fel Cadeirydd Craffu ac Aelod o Banel Craffu Covid-19 sydd â diddordeb arbennig yn y maes hwn.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ebrahim i wneud datganiad ac ar ôl hynny rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau gan Swyddogion. Gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau ac arsylwadau.

Croesawodd yr Aelodau'r adroddiad a chydabu ei fod yn gipolwg ar waith y tasglu dros y 18 mis diwethaf ac yn creu man cychwyn sy'n llywio dyheadau'r Cyngor a phartneriaid ar gyfer gwasanaethu'r un o bob pump o drigolion Caerdydd sydd â chefnidir lleiafrifoedd ethnig.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod yr adroddiad yn nodi'n glir y nod lefel uchel o wella profiadau byw trigolion o leiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, canfu'r Aelodau nad oedd y trefniadau llywodraethu ar gyfer goruchwyllo cynnydd yn y dyfodol yn glir yn yr

Adroddiad o ran a fyddai'r Cabinet yn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fyddai'r pwynt atebolrwydd cyntaf, adroddiad diweddar oedd hwn, a gellid disgwyl ymateb mwy ffurfiol yn yr haf.

Nododd yr Aelodau y byddai monitro unrhyw gamau gweithredu yn cael ei drin fel rhan o'r rhaglen polisi corfforaethol. Croesawodd yr Aelodau'r cynnig i ddychwelyd gyda chynigion ynghylch sut y gallai'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd weithio yn ystod haf 2022

Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad yn gyraeddadwy ond nodwyd y byddai angen dull partneriaeth a byddai angen ymgorffori'r argymhellion yng nghynlluniau partneriaid.

Roedd yr Aelodau'n awyddus i ddysgu pryd y byddai cynlluniau gweithredu'n dod i'r amlwg i gyflawni'r argymhellion, a fyddai Dangosyddion Perfformiad Allweddol i fonitro cynnydd ac a fyddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i graffu ar y cynlluniau.

Nododd yr Aelodau fod y rhan fwyaf o weithwyr o leiafrifoedd ethnig mewn swyddi â chyflogau is ac roeddent o'r farn bod gan y Cyngor rôl i'w chwarae o ran sicrhau bod partneriaid y BGC yn cael eu cynnwys a bod angen newid ar draws y ddinas, gyda sefydliadau'n gofyn pam nad yw lleiafrifoedd ethnig yn dal mwy o swyddi uwch.

Anogwyd yr Aelodau bod staff o leiafrifoedd ethnig o'r gymuned BAME ar hyn o bryd yn cyfrif am 10.26% o'r gweithlu yng Nghyngor Caerdydd, sy'n gynydd o 9.87% yn 2020. Fodd bynnag, mae hyn yn amlwg yn dal yn is na'r 15% o leiafrifoedd ethnig sy'n ffurfio poblogaeth Caerdydd. Nododd yr Aelodau fod gwaith i'w wneud i godi hyder lleiafrifoedd ethnig i wneud cais am swyddi'r Cyngor, bod gweithdai wedi dechrau yn Hybiau'r Cyngor, a phwysigrwyd codi disgwyliadau o oedran cynnar.

**PENDERFYNWYD:** CYTUNODD y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Gadeirydd y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol ar ran y Pwyllgor er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

## 74 : GWEITHIO GARTREF AC YSTWYTH

Gofynnwyd i'r Aelodau gofio bod grŵp gorchwyl o'r pwyllgor hwn wedi bod yn casglu tystiolaeth dros y flwyddyn ddiwethaf gyda'r bwriad o archwilio sut y gall y profiad o reoli o bell yn ystod y pandemig lywio polisi ar arddulliau gweithio yn y dyfodol. Roedd y tasglu'n canolbwyntio'n benodol ar yr heriau rheoli/arwain wrth gefnogi gweithio gartref a gweithio ystwyth.

Cyfarfu'r Cadeirydd, ynghyd â'r Cyngorwyr Mackie a Henshaw, â nifer o dystion yn cynrychioli sefydliadau a oedd wedi mabwysiadu gweithio gartref ymhell cyn argyfwng y pandemig. Gwnaethant hefyd gyfweld â thrawstoriad da o reolwyr Cyngor Caerdydd am eu profiadau.

Rhoddodd y Prif Swyddog Craffu gyflwyniad a oedd yn amlinellu'r Canfyddiadau Allweddol a'r argymhellion a wnaed.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Roedd yr Aelodau o'r farn, o drafodaethau gyda'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr, eu bod yn ymddangos yn hapus ar y cyfan â'r cyfeiriad a gymerwyd.

Roedd yr Aelodau'n hoffi'r ffocws ar arweinyddiaeth a diwylliant, diwylliant hyfforddi a bod lles yn cael ei ystyried. Nododd yr Aelodau yr heriau ad-drefnu.

Roedd yr Aelodau'n gobeithio y byddai'r canfyddiadau a'r argymhellion yn parhau i edrych i'r dyfodol a gofyn cwestiynau, yn enwedig o ystyried materion sy'n dod i'r amlwg fel yr Argyfwng Ynni a'r Argyfwng Costau Byw.

PENDERFYNWYD: bod yr adroddiad a'i argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet.

## 75 : BUSNES Y PWYLLGOR

### Adroddiad Blynyddol Craffu

Atgoffwyd yr Aelodau bod y pum pwyllgor craffu yn llunio Adroddiad Blynyddol ar y cyd, pob pwyllgor yn cyfrannu tudalen ar ei gyflawniadau. Amgaewyd tudalen ddrafft ar gyfer y Pwyllgor hwn yn Atodiad 1 i'w chymeradwyo. Fel o'r blaen, byddai'r dudalen yn nodi aelodaeth, diben a chyflawniadau dros y flwyddyn.

Gofynnwyd i'r Aelodau am unrhyw sylwadau yr oeddent am eu hychwanegu at y drafft arfaethedig.

Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd am unrhyw uchafbwyntiau yr hoffent eu gweld yn cael eu cyfeirio yn Adroddiad Blynyddol terfynol y Weinyddiaeth bum mlynedd hon.

Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cyd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd  
Roedd y Cynghorwyr Mackie a Williams wedi bod yn cymryd rhan yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y cyd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r ffordd ymlaen ar gyfer coladu'r canfyddiadau a'r argymhellion hyd yma ar gyfer yr ymchwiliad i Opsiynau Strategol y CDLIN.

### Gohebiaeth

Cyfeiriwyd yr Aelodau at yr ohebiaeth a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor ers mis Ionawr 2022, a lle bo angen, cafwyd ymatebion y Cabinet hyd yma.

## 76 : EITEMAU BRYG (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

## 77 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I'w drefnu.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.10 pm